IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# LlC25-

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Broad Street a High Street, Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) (Rhif 3) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Tachwedd 2025* |
| *Yn dod i rym* | *29 Tachwedd 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gan y cynhelir digwyddiad perthnasol, sef Ffair Aeaf y Trallwng, ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Broad Street a High Street, Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) (Rhif 3) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Tachwedd 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# WG25-

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A458 Trunk Road (Broad Street & High Street, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) (No. 3) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *19 November 2025* |
| *Coming into force* | *29 November 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A458 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited by reason of a relevant event, namely the Welshpool Winter Fair, being held on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A458 Trunk Road (Broad Street & High Street, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) (No. 3) Order 2025 and this Order comes into force on 29 November 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"event period" ("*cyfnod y digwyddiad*") means the period commencing at 07:00 hours on 29 November 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

(**1**) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994 (c. 11), section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 29 Tachwedd 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Broad Street a High Street yn y Trallwng, Powys sy'n ymestyn o'i chyffordd â The Cross hyd at ben deheuol yr ynys hollti wrth ei chyffordd â Jehu Road.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Tachwedd 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

(i) any vehicle being used for police, fire or ambulance services purposes;

(ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned;

(iii) any vehicle used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the relevant event;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A458 Shrewsbury to Dolgellau trunk road.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the event period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as Broad Street and High Street at Welshpool, Powys that extends from its junction with The Cross to the southern tip of the splitter island at its junction with Jehu Road.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 1 day.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 19 November 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government